190.

# Carol Nadolig.

SEF

## *Can ar Enedigaeth Crist,*

*Am y flwyddyn* 1823,

### GAN THOMAS HARRIS.

Cenir ar y don.---"Diniweidrwydd."

1, AWN i Fethl'em gyda'r doethion,
wrth y seren wawrlon wen,
Clyw'n ganu a gorfoleddu,
I'r Brenin Iesu 'n entrych nen;
Ac yn bloeddio am yr ucha,
Haleluia i Frenhin hedd.
Caed Ceidwad i'r colledig heddyw,
I godi 'r meirw 'n fyw o'u bedd.

2, doethion aethant, llon yw'r anthem.
I Fethl'em Judah hardd ei phryd,
Duw a dyn yn syn mewn undeb,
Yn y preseb caed mewn pryd;
Wedi 'i rwymo mewn cadachau,
'R hwn oedd yn dal colofnau 'r byd,
Tad trag'wyddoldeb yn ddyn bychan,
A'r fronau Mair yn faban mud.

3 le yn y preseb gwael gorweddai,
Heb ganddo le ro'i ben i lawr,
Y Duw trag'wyddol wisgai 'n hollol,
Natur ddynol llwch y llawr;
Yr hwn a roddodd fod i Fari,
Yn cael ei feithrin ganddu 'n gu,
Agor llwybr i bechadur,
I brysur fyn'd i'r nefoedd fry.

4, Nid allodd nefoedd lai na synnu,
I wel'd mewn beudy y fath Wr,
Etifedd nef y nefoedd burlan,

Ar luniau Mair yn gadarn dwr;
Am nad ydoedd lle i lettya,
O ran llawndra yn y lle,
Yn cael ei eni mewn preseb gwaeledd,
O gariad rhyfedd mawredd ne'!

5, Mawr yw 'r gwrthiau a'r rhyfeddodau,
Moddion gorau Meddyg gwiw,
Nid allai neb ond dyn a'r Duwdod,
Ei gyflawni 'n hynod, clyw;
Yr oedd y mudan yn llefaru,
A'r cloff yn llamu, clywch yn llu,
Y dall a'r byddar yn gweld a chlywed,
A'r meirw 'n codi, cred er cri.

6 Yr oedd y cleifion, er trymed calon,
Yn cael yn gyson bur iachad,
Seiniwn heddyw ber ganiadau,
Am rinweddau maith y gwa'd,
Gweithio allan iachawdwriaeth,
Ini 'n helaeth clod am hyn,
Ei ddechreu wnaeth y' Mhethlem Judah,
Gorphenodd ar Galfaria fryn.

7, Had y wraig, addewid Eden,
Seren Jacob lawen liw,
Dyma 'r prophwyd megis Moses,
Daeth yn nes addewid Duw,
Llew o Judah, gwreiddyn Dafydd,
Braf yw'r newydd i ni 'nawr,
A'r berth yn llosgi heb ei difa,
Cynllun yn Mesiah mawr.

8, Dyma 'r wialen o gyff Jesse,
A'r blaguryn o'i wraidd ef;
Dyma'r Mab a enid ini,
Erbyn cledi daeth o'r nef;
Dyma D'wysog y tangnefedd,
Mae 'i waeledd yn orfoledd mawr,
Y Duwdod yn y dyn yn trigo.
Efe sy'n llywio nef a llawr.

X205224214

9, Dyma'r graig bu son am dani,
Gan yr holl prophwydi byw,
Dyma haul cyfiawnder wisgi,
Malachi a'i canfu, clyw;
Yr hwn a lanwai nef a daear,
Heb ei gymmar Iddo i'w gael,
Yn faban gwan, yn Dduw trag'wyddol,
Pan wisgai 'n dynol natur wael,

10, Mi dro fy ngolwg i Gethsemane,
A'i chwys i lawr fel dafnau gwa'd
Ar noswaith rewllyd yn gweddio,
Ar i'r awr basio gan y Tad,
Erbyn hyn daeth gwyr ag arfau,
A'u cleddyfau a'u gaeywffyn,
I ddal yn drist y dyn a'r Duwdod,
O! 'r fath syndod, fater syn.

11, Ger bron Pilat cyrchwyd Iesu,
I gael ei farnu 'n ddilai,
Ac er cymmaint y gau dystion,
Yn ei berson ni chaed bai,
Ei ddysgyblion yno 'n bruddion,
Oll a ffoisant bob yr un,
Ofni oll a ffoi a wnaethpwyd,
Gadawyd Iesu wrtho 'i hun.

12, Ei fflangellu wnaent yn union,
A choron ddrain ar ei sanctaidd ben,
Rhai yn poeri yn ei wyneb,
Mewn siriolden ni ro'dd sen,
A'i waed yn llifo 'r hyd 'r heolydd,
Wrth fyn'd i fynydd Calfaria,
Fel Oen 'r arweiniwyd ef i'r lladdfa,
O pwy nas carai mewn modd cry.

13, Mi ddychmygwn 'modi i'n gweled,
Ufferon oll yn wag i gyd,
A Lucifer a'i alluoedd obry,
I fynu 'n dod mewn eitha' llid;

Erbyn hyn 'roedd Duw y nefoedd,
Yn rhoi bloedd ag uchel lef,
Deffro gledd 'nerbyn fy Mugail,
Taro 'r gwr sydd gyfaill nef.

14, O'i fodd yr aeth i ben Calfaria,
Ni fu y faith ymladdfa erioed,
Heb ddim arfau 'r Oen diniweid,
'N rhodi bleiddiaid uffern dan ei droed,
A chyfiawnder lan yn gwaeddi,
Gollwng ef mi gefais iawn,
Talodd ddyled merch 'r Amoriad,
Pan darawodd dri o'r gloch prydnhawn.

15, Fe floeddiodd Iesu ar Galfaria,
Pan oedd yn y lladdfa yn ein lle,
Corphenwyd talwyd dyled Seion,
Y mae 'n rhydd ger bron y ne',
Ac er cymmaint oedd y biliau,
O Eden i Galfaria fryn,
Efe ai talodd ac a'i croesodd,
Ai waed fe 'u cliriodd oll yn wyn.

16, Gan fod E' wedi ar Galfaria,
Ar y dreigiau gario 'r dydd,
Fe gaiff merch yr hen Amoriad,
'N rhaid o'r caethiwed dd'od yn rhydd:
Hi gaiff ei gwisgo 'n ddifrycheulyd,
.Nghyfiawnder hyfryd Crist ein pen,
A'i golchi 'n ffynnon goch Calfaria,
I'r Meddyg da bo 'r mawlf Amen.

---

*Partridge, Argraffyd, Caesnewyd.*